# Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol

## Cofnodion y Cyfarfod:

| | |
|---|---|
| **Teitl y Grŵp Trawsbleidiol:** | Trafndiaeth gyhoeddus |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 22.09.2021 |
| **Lleoliad:** | Cynhaliwyd drwy Zoom |

## Yn bresennol:

| **Aelodau o'r Senedd:** | |
|---|---|
| **Enw** | **Plaid** |
| Carolyn Thomas (Cadeirydd) | Llafur |
| Llyr Gruffydd | Plaid |
| Huw Irranca-Davies | Llafur |
| Jack Sargeant | Llafur |
| Jayne Bryant | Llafur |
| Natasha Ashgar | Ceidwadwyr |
| Heledd Fychan | Plaid |

| **Unigolion Allanol** | | |
|---|---|---|
| **Enw** | **Sefydliad** | **Swydd** |
| Joshua Miles | CPT Cymru | (Ysgrifenyddiaeth) Cyfarwyddwr |
| Jo Foxall | PTI Cymru | |
| Scott Pearson | Newport Transport | Rheolwr Gyfarwyddwr |
| David Beer | Ffocws ar Drafnidiaeth Cymru | Uwch Reolwr Cymru |
| Stephen Hughes | | |
| Colin Thomas | Newport Transport Ltd | Rheolwr Masnachol a Prosiectau |
| Jane Reakes Davies | First Cymru Buses Ltd | Rheolwr Gyfarwyddwr |
| Lee Robinson | Trafnidiaeth Cymru | Cyfarwyddwr Gogledd Cymru (Bysiau) |
| Christine Boston | Sustrans | Cyfarwyddwyr |
| Barclay Davies | Defnyddwyr Bysiau Cymru | Cyfarwyddwyr |

| | | |
|---|---|---|
| Cyngh William Powell | Ffocws ar Drafnidiaeth | Aelod o'r Bwrdd |
| Kaarina Ruta | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | |
| Sian Donovan | Pedal Power | |
| Peter Kingsbury | Rail Future | |
| Rhiannon Jane-Raftery | Rhwydwaith Rheilffyrdd Cymunedol | |
| Rhiannon Hardiman | Living Streets | Rheolwyr Llinell |
| Ceri Taylor | Trafnidiaeth Cymru | Rheolwr PA |
| Lewis Brencher | Trafnidiaeth Cymru | Cyfarwyddwr Cyfathrebu |
| Peter Daniels | Cyngor Sir Ddinbych | |

## Ymddiheuriadau:

| Enw: | Teitl: |
|---|---|
| Vikki Howells | Aelod o'r Senedd |
| Luke Fletcher | Aelod o'r Senedd |
| Jayne Bryant | Aelod o'r Senedd |
| Peredur Owen Griffiths | Aelod o'r Senedd |
| Christine Boston | Cyfarwyddwr Sustrans |

## Crynodeb o'r cyfarfod:

1) Cyflwyniad - Agorodd Carolyn Thomas y cyfarfod a rhoddodd gyflwyniad ar y grŵp a'i bwrpas yn ystod tymor y 6ed Senedd. Nododd fod trafnidiaeth gyhoeddus yn fater polisi hanfodol o safbwynt darpariaeth ond hefyd fel ffordd o sicrhau buddion cymdeithasol i bobl Cymru. Diolchodd i Hannah McCarthy a Joshua Miles am helpu i sefydlu'r grŵp.
2) Ethol Cadeirydd - Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd y grŵp. Cafodd Carolyn Thomas ei henwebu gan Huw Irranca-Davies AS a chytunodd y rhai a oedd yn bresennol â'r enwebiad.
3) Ethol ysgrifenyddiaeth - Gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer ysgrifenyddiaeth y grŵp. Cafodd Joshua Miles ei enwebu gan Carolyn Thomas a chytunodd y rhai a oedd yn bresennol â'r enwebiad.
4) Cylch gorchwyl - Cynigiwyd y cylch gorchwyl a chytunodd y grŵp arno: Mae'r manylion i'w gweld isod fel cofnod ar gyfer y grŵp.

*Bydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Drafnidiaeth Gyhoeddus yn gweithredu fel fforwm i drafod materion trafnidiaeth sy'n effeithio ar bobl Cymru ac i drafod dulliau cynaliadwy o ddatrys problemau gan ystyried natur gymhleth gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus.*

*Drwy fforymau fel cyfarfodydd agored a sesiynau briffio a drwy weithio gyda'r cyfryngau, bydd y grŵp yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus ddibynadwy a fforddiadwy ar gael i gludo pobl i'r swyddi y gwasanaethau a'r rhwydweithiau cymorth y maent yn dibynnu arnynt.*

*Bydd y Grŵp Trawsbleidiol yn ceisio dylanwadu ar benderfyniadau polisi Llywodraeth Cymru ac asiantaethau cyhoeddus eraill drwy gynnig llwyfan i amrywiaeth eang o randdeiliaid roi eu barn am y modd y gellir gwella trafnidiaeth gyhoeddus ar hyd a lled Cymru.*

5) Aelodaeth y Grŵp - Darllenodd Joshua Miles enwau aelodau presennol y grŵp gan gynnwys y rhai a wahoddwyd neu a fynegodd ddiddordeb mewn bod yn bresennol a'r rhai a oedd yn bresennol. Nododd fod bylchau posibl o ran trafnidiaeth gyhoeddus yn ei chyfanrwydd (bysiau a rheilffyrdd) a dylid cynnig awgrymiadau i lenwi'r bylchau hynny. Awgrymodd Lewis Brencher y dylid gwahodd Network Rail a byddai'n darparu manylion cyswllt Sam Hadley. Awgrymodd y Cynghorydd William Powell y dylid gwahodd Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Eiliwyd hyn gan David Beer a awgrymodd gyswllt yno o'r enw Andy Morgan. Gofynnodd Peter Daniels a fyddai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac ATCO yn rhan o'r grŵp. Sicrhaodd Joshua Miles ef eu bod ar y rhestr o wahoddiadau. Awgrymwyd hefyd y dylid gwahodd Anabledd Cymru i'r cyfarfod nesaf.

**Cam i'w gymryd - Yr ysgrifenyddiaeth i gysylltu â'r unigolion a awgrymwyd gan y grŵp i'w gwahodd i'r cyfarfod nesaf.**

6) Pynciau i'w hystyried mewn cyfarfodydd yn y dyfodol - Nododd y Cadeirydd restr o bynciau y gellid eu hystyried mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Awgrymwyd ychwanegiadau ar y rhestr honno. Mae'r rhestr wedi'i chynnwys isod. Cytunwyd y byddai pedwar cyfarfod y flwyddyn a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn ddigon ar y dechrau, ac y gellir adolygu hynny os bydd angen. Cytunwyd y dylai'r cyfarfod nesaf ganolbwyntio ar adfer ar ôl Covid-19 a hyder teithwyr. Byddai'r cyfarfod dilynol yn canolbwyntio ar roi strategaeth Llwybr Newydd a'r cynllun cyflawni trafnidiaeth ar waith. Awgrymodd Lewis Brencher y gallai Trafnidiaeth Cymru roi cyflwyniad ar eu hymgyrch arfaethedig i ddenu teithwyr yn ôl. Tynnodd David Beer sylw at waith Canolbwyntio ar Drafnidiaeth yn ystod y pandemig a chynigodd roi cyflwyniad ar hyn i'r grŵp.

**Cam i'w gymryd - Yr ysgrifenyddiaeth i drefnu dyddiadau a siaradwyr ar gyfer cyfarfodydd dilynol ar ddenu teithwyr yn ôl ar ôl Covid-19 a rhoi strategaeth Llwybr Newydd ar waith**

Daeth y cyfarfod i ben.